

# Canllaw Awdurdodi a Chymeradwyo Hyfforddiant Trwyddedu



Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar y gofynion hyfforddi ar gyfer trwyddedu.

## Cynnwys

1.	Cefndir .....	3
2.	Gofynion Cyrsiau Landlord .....	4
	Cynnwys cwrs landlord ar gyfer cais cychwynnol am drwydded .....	5
	Cynnwys cwrs landlord ar gyfer cais adnewyddu trwydded .....	9
3.	Gofynion Cyrsiau Asiant.....	14
	Cynnwys cwrs asiant ar gyfer cais cychwynnol am drwydded .....	14
	Cynnwys cwrs asiant ar gyfer cais adnewyddu trwydded .....	16
4.	Proses cymeradwyo'r cwrs .....	17
	Ceisiadau Cymeradwyo'r Cwrs: .....	18
	Ffi Cymeradwyo'r Cwrs: .....	18
5.	Proses Awdurdodi Hyfforddiant .....	18
	Ffi awdurdodi hyfforddiant: .....	21
6.	Archwiliad Rhentu Doeth Cymru .....	21
	Amcanion yr Archwiliad .....	22
7.	Adnewyddu Cymeradwyaeth Cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant...	22
	Atodiad A – Rhestr Termiau .....	23

Ar gyfer darparwyr sy'n dymuno cynnig hyfforddiant 'cyflawn' i ddarpar drwyddedeion y mae angen iddynt gael trwydded, y mae'r canllaw hwn. Mae'n rhoi arweiniad ar greu cyrsiau hyfforddiant a gymeradwyir gan Rentu Doeth Cymru i Landlordiaid a/neu Asiantau yn ogystal â rhoi gwybodaeth ar sut i ddod yn ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig ar gyfer hyfforddiant 'cyflawn'. Os ydych chi hefyd eisiau cynnig hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), mae'n rhaid i chi ddarllen y Canllaw sy'n esbonio sut i wneud cais am y math hwn o gymeradwyaeth cwrs ac awdurdodiad darparwyr hyfforddiant. Gellir dod o hyd i hyn ar wefan Rhentu Doeth Cymru, ar y dudalen lawrlwythiadau: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/>

Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflenni neu ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio, cysylltwch â Thîm Hyfforddi Rhentu Doeth Cymru drwy ffonio 03000 133 344 neu e-bostio [hyfforddianrhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk](mailto:hyfforddianrhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk)

## 1. Cefndir

Mae Rhan 1 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014** yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru, sy'n cael ei rentu ar contract meddiannaeth berthnasol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 neu denantiaeth reoledig at ddibenion Deddf Rhentu 1977, i gofrestru. Mae'n ofynnol i landlordiaid sy'n ymgymryd â thasgau gosod a rheoli eu heiddo rhent yng Nghymru wneud cais am drwydded. Does dim angen trwydded ar landlordiaid nad oes ganddynt ran yn y broses o greu contractau meddiannaeth a rheoli eu heiddo rhent. Serch hynny, rhaid iddynt ddefnyddio asiant trwyddedig a chofrestru fel landlord gan enwi'r asiant wrth gofrestru. Mae cwblhau hyfforddiant cymeradwy yn un o'r gofynion trwyddedu i ddeiliaid trwydded. Dylai'r hyfforddiant hwn roi gwybodaeth berthnasol a chyfredol a chyfleoedd datblygu proffesiynol i landlordiaid ac asiantau, er mwyn rheoli contractau meddiannaeth yn llwyddiannus ac yn unol â'r gyfraith, a darparu llety rhent sydd mewn cyflwr da.

Dan Reoliad 4, **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015**, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu bennu gofynion mewn perthynas â hyfforddiant (yn unol â 19(3)(a) Deddf Tai (Cymru) 2014.

### Rhaid i hyfforddiant nodi:

- a) ymrwymïadau statudol landlord a thenant;
- b) y berthynas contract rhwng landlord a thenant;

- c) rôl asiant sy'n cyflawni gwaith gosod neu waith rheoli eiddo;
- ch) arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n destun tenantiaeth ddomestig, sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig i'w gosod dan denantiaeth ddomestig;
- d) rôl landlord sy'n cyflawni gweithgareddau gosod neu weithgareddau rheoli eiddo;
- dd) unrhyw ofynion hyfforddi eraill y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn cwrs hyfforddiant cymeradwy yn nhyb yr awdurdod trwyddedu.

Felly, er mwyn cael trwydded, rhaid i landlordiaid, asiantau ac unrhyw bersonau cysylltiedig gwblhau naill ai cwrs hyfforddiant gyda Rhentu Doeth Cymru (RhDC) a fydd yn cwmpasu'r cynnwys sylfaenol a nodir ym mhwyntiau a) i dd) uchod, neu fel arall cwrs sydd wedi'i gymeradwyo gan Rhentu Doeth Cymru ac a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant allanol (DHA) awdurdodedig. Unwaith eto, bydd y cyrsiau hyn yn bodloni'r cynnwys sylfaenol a nodir uchod a gelwir y cyrsiau hyn yn gyrsiau 'cyflawn'.

Mae'r **ddeddfwriaeth** yn galluogi RhDC i 'Gymeradwyo' cyrsiau ac 'Awdurdodi' Darparwyr Hyfforddiant, fel y gallant gynnig hyfforddiant addas at ddibenion landlordiaid ac asiantau sy'n cael trwydded. Er bod y gyfraith yn ymdrin â'r agweddau allweddol ar yr hyn sy'n angenrheidiol i wneud cais am gymeradwyaeth ac awdurdodiad, a'r broses y mae'n rhaid i RhDC gydymffurfio â hi wrth dderbyn neu wrthod ceisiadau o'r fath, ceir manylion ychwanegol yn y ddogfen hon.

## 2. Gofynion Cyrsiau Landlord

Rhaid i gyrsiau ddarparu cynnwys ar **ofynion statudol a chytundebol** ac **Arfer gorau** (yn unol â Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru a grëwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 40 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014), gan ei gwneud yn glir y gwahaniaeth rhwng pob un. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r landlord ddeall ei rwymedigaethau, rhwymedigaethau'r tenantiaid, a rhwymedigaethau i asiantau pan fo landlord yn cyfarwyddo un.

Mae modd cyflwyno cynnwys y cwrs mewn unrhyw drefn neu mewn unrhyw nifer o fodiwlau, cyn belled â bod y deilliannau dysgu ehangach yn cael eu cyflawni. Wrth gyflawni cyrsiau drwy blatfform ar-lein, rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyrsiau'n rhyngweithiol a diddorol, a'u bod yn hwyluso amgylchedd sy'n ysgogi dysgu.

Bydd y broses asesu ar gyfer cymeradwyo cyrsiau yn ystyried a oes proses ddilysu ddigonol. Bydd Rhentu Doeth Cymru'n gofyn bod proses arholi gadarn ar waith yn rhan o

brosesau dilysu dysgwyr sy'n dangos bod dealltwriaeth dda iawn o'r maes llafur gan y dirprwyon ar y cwrs.

Mae'r cynnwys isod yn berthnasol i gwrs 'cyflawn' ar gyfer landlordiaid neu staff landlordiaid ('pobl gysylltiedig' yw'r diffiniad o'r rhain) y mae'n rhaid iddyn nhw gwblhau hyfforddiant fel rhan o gais cychwynnol am drwydded. Rhaid i chi sicrhau bod pob maes a restrir isod yn cael sylw yng nghynnwys eich cwrs.

### Cynnwys cwrs landlord ar gyfer cais cychwynnol am drwydded

<b>Deddf Tai (Cymru) 2014</b>	
<b>Rhentu Doeth Cymru</b>	Trosolwg, Diben y Ddeddfwriaeth, Ymwneud Llywodraeth Cymru
	Cofrestriad
	Trwyddedu
	Amodau/Cod Ymarfer
	Person cymwys a phriodol
	Hyfforddiant
	Gorfodi
	Archwiliad Asiant (Rhentu Doeth Cymru)
	Newidiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i RhDC yn ôl y gyfraith
	Cynnal Cofrestriad ac Adnewyddu Trwydded
	"Person Cysylltiedig" dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
<b>Perthnasoedd Allweddol</b>	
<b>Diffiniad a chyfrifoldebau</b>	Asiant, landlord, deiliad contract
<b>Ystyriaethau cyn contract</b>	
<b>Caniatâd/cyfarwyddiadau</b>	Rhydd-ddeiliad
	Darparwr morgais
	Cwmni yswiriant
	Cofrestriad/trwydded Rhentu Doeth Cymru
<b>Treth</b>	Treth Incwm (CThEM)
	Treth ar enillion cyfalaf
	Treth Etifeddiant

	Treth Gyngor
	Treth Trafodiadau tir
<b>Buddsoddiad Eiddo</b>	Buddsoddi mewn eiddo
	Marchnad y Sector Rhent Preifat
<b>Lle Cewch Gyngor</b>	Cymdeithasau Landlordiaid
	Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru
<b>Opsiynau Gosod</b>	Hunan-Reoli Landlordiaid
	Gosod drwy asiant yn unig, gosod a chasglu rhent, rheolaeth lawn
	Gweithio gyda Thenantiaid Agored i Niwed
<b>Yswiriant</b>	Adeilad a chynnwys
	Yswiriant landlord
	Atebolrwydd cyhoeddus (contractwyr)
<b>Hysbysebu/marchnata</b>	Ffioedd / dadansoddiad a disgrifiad (canllawiau CMA)
	Gwaharddiad ar ffioedd i denantiaid
<b>Perfformiad ynni</b>	Dangosyddion ar adeg hysbysebu
	Tystysgrif yn ystod yr ymweliad
<b>Gwella Ynni</b>	Newidiadau Deddfwriaethol – Cais Tenant
	Cydsyniad a Sgôr E fan lleiaf
<b>Gwelliannau i eiddo</b>	Trosi, Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu
<b>Creu contractau meddiannaeth</b>	
<b>Hierarchaeth y Gyfraith</b>	Statudol, Contract a Chyffredin
<b>Mathau o Gontract Meddiannaeth</b>	Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, deddfwriaeth atodol a Chanllawiau LIC
	Contractau diogel
	Contractau Safonol (sefydlog a chyfnodol)
	Tenantiaethau a Thrwyddedau sydd y tu allan i gwmpas Rhentu Cartrefi a Rhentu Doeth Cymru
	Cosbau am beidio â chydymffurfio
<b>Contract Meddiannaeth Safonol</b>	Datganiad Ysgrifenedig o'r Contract
	Datganiadau Ysgrifenedig Model
	Amserlenni ar gyfer cyhoeddi
	Termau: Materion allweddol, Sylfaenol, Atodol ac Ychwanegol

	Telerau annheg
<b>Fetio deiliaid contract</b>	Cyfweliad a geirdaon neu wasanaeth geirdaon
	Gwarantydd
	Gwirio prawf adnabod, statws mewnfudo
<b>Diogelu gwybodaeth</b>	Deddf Diogelu Data 2018 / GDPR
<b>Blaendaliadau tenantiaeth</b>	Cynlluniau diogelu blaendal
	Stocrestr - (telerau atodol)
	Traul rhesymol
	Cynlluniau Gwarant Bond
<b>Gwahaniaethu anghyfreithlon</b>	Deddf Cydraddoldeb 2010
<b>Gosod y rhent</b>	Cytundeb gyda'r Tenant
	Pwyllgor asesu rhenti (wedi'u trosi yn unig)
<b>Budd-daliadau Tai</b>	Lwfans Tai Lleol
	Credyd Cynhwysol
<b>Cyfleustodau</b>	Pwy Sy'n Gyfrifol am Dalu
	Cofnod o Ddarlleniadau Mesuryddion
	Rheoliadau Dŵr Cymru 2014 – Landlord TAP
<b>Cyfrifoldebau ac atebolrwydd landlord</b>	
<b>Rhwymedigaethau Atgyweirio a Ffitrwydd i Fod yn Gartref</b>	Cyfrifoldebau Trwsio a Chyfyngiadau
	Rhwymedigaethau Landlordiaid a Deiliaid Contractau
	Ffitrwydd i Fod yn Gartref – 29 o 'Faterion ac Amgylchiadau'
	Mynediad i Atgyweirio/Hawl i Fwynhad Didramgwydd
	Iawndal a Chosbau
<b>System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai</b>	Ddeddf Tai 2004
	Peryglon Cyffredin - 29 o beryglon
	Gorfodi
<b>Deddfwriaeth lechyd a Diogelwch Allweddol</b>	Rheoliadau Diogelwch Trydanol (1994)
	Rheoliadau Diogelwch Tân (FSO 2005 a Deddf Diogelwch Tân 2021)
	Legionella – Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
	Rheoliadau Asbestos (2012)

	Rheoliadau Diogelwch Nwy (1998)
	Dodrefn a Rheoliadau Diogelwch Dodrefn (1988)
	Ysmygu a Deddf Iechyd 2006
<b>Tai Amfeddiannaeth</b>	
	Diffiniad o Dŷ Amfeddiannaeth
	Dyletswyddau Rheolwr Ty Amfeddiannaeth - Rheoliadau Tai Amfeddiannaeth 2006
	Trwyddedu - Deddf Tai 2004, Cymwys a Phriodol
	Methiant i Gydfurfio – Troseddau
	Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegu
<b>Trwyddedu Dethol</b>	Trosolwg Byr o'r Cynllun Trwyddedu Dethol
<b>Gwaredu gwastraff</b>	Dyletswydd gofal
<b>Yn ystod y contract</b>	
<b>Symud i mewn</b>	Gwybodaeth allweddol, cyfarwyddiadau am offer
<b>Ymweliadau rheolaidd, cynnal a chadw</b>	Rhybudd 24 awr. Hawl i feddiannu heb ymyrraeth gan y landlord
	Ymweliadau cyfnodol ac eraill
<b>Gweithdrefnau argyfwng</b>	Cyswllt brys
	Mynediad mewn argyfwng
<b>Rhent</b>	Casglu
	Derbynneb Rhent Ysgrifenedig
	Amrywio'r rhent
	Sbardunau ôl-ddyledion rhent
	Dyfarniad Hawliadau Bychain y Llys Sirol
<b>Newid tymhorau</b>	Amrywio Contractau Meddiannaeth Safonol
<b>Olyniaeth, Cyd-gontractau a Chydsyniad</b>	Marwolaeth ac Olyniaeth
	Cyd-ddeiliaid Contractau: Atebolrwydd, Gadael ac Ychwanegu
	Cydsyniad a Rhesymolrwydd
<b>Cysylltiadau landlord/deiliad contract</b>	Atal chwalu contract, cyfryngu, gwasanaethau cymorth, camau cyfreithiol
	Hawliau a rhwymedigaethau deiliaid contract



Diwedd Contractau Meddiannaeth Safonol Tymor Penodol	Tri opsiwn: diofyn i gyfnodol, dewis cyhoeddi newydd sefydlog neu gyfnodol newydd
<b>Gwella Effeithlonrwydd Ynni</b>	Hawliau, grantiau a chynlluniau deiliad contract
<b>Cwynion</b>	Ymateb Amserol
	Gwneud iawn i'r Ombwdsmon
<b>Diweddu Contract meddiannaeth</b>	
<b>Meddiannaeth (Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016)</b>	Cydsyniad Cydfuddiannol
	Ymddygiad gwrthgymdeithasol
	Ôl-ddyledion rhent difrifol
	Torri'r Contract
	Meddu ar Gontractau Cyfnodol
	Meddu ar gontractau tymor penodol
	Ffurflenni Penodol
	Gadael
	Troi allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu
	Troi Allan Dialgar
<b>Terfynu contract meddiannaeth gan ddeiliaid contract</b>	Cyfnod Penodol/Cyfnodol
	Cyd-denantiaethau - Hysbysiad Ymadael
<b>Symud allan</b>	Cyfleustodau – Darlleniadau Mesuryddion, Rhoi Gwybod i Ddŵr Cymru
	Treth Gyngor
	Stocrestr
	Rhoi'r Blaendal yn ôl - derbynebaw, dull Amgen o ddatrys anghydfod
	Trosglwyddo eiddo
<b>Rhaid i'r cwrs gwmpasu gwybodaeth sy'n berthnasol i gontractau meddiannaeth newydd o 1 Rhagfyr 2022 yn ogystal â gwybodaeth am gontractau wedi'u trosi yn benodol o amgylch mediant a FfIFYG</b>	

### **Cynnwys cwrs landlord ar gyfer cais adnewyddu trwydded**

At ddibenion adnewyddu trwyddedau, mae cynnwys y cwrs isod wedi'i adolygu i ganolbwyntio ar lai o bynciau ond y disgwyliad yw y bydd y pwnc dan sylw yn cael ei

drin yn fanylach, yn fwy ymarferol, gydag astudiaethau achos a thrafodaethau ychwanegol. Nid oes rhaid dilyn y cwrs yn ôl y drefn a ddisgrifir isod, cyn belled bod y pynciau'n cael eu cwblhau.

<b>Deddf Tai (Cymru) 2014</b>	
<b>Rhentu Doeth Cymru</b>	Trosolwg a phwrpas y ddeddfwriaeth
	Adolygiad o'r camau a gymerwyd gan y trwyddedai i gydymffurfio
	Manteision RhDC ac annog cofrestru ar gyfer diweddariadau
	Dyletswydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf
	Amodau'r drwydded
	Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru
<b>Diffiniad a chyfrifoldebau</b>	Asiant, landlord, tenant
<b>Ystyriaethau cyn contract</b>	
<b>Cynulleidfa darged</b>	Gweithio gyda thenantiaid sy'n agored i niwed a pheccynnau cymorth
	Gosod i fyfyrwyr, heriau ychwanegol
<b>Yswiriant</b>	Adeilad a chynnwys
	Yswiriant landlord
	Atebolrwydd cyhoeddus (contractwyr)
<b>Hysbysebu/marchnata</b>	Ffioedd / dadansoddiad a disgrifiad (canllawiau CMA)
	Gwaharddiad ar ffioedd i denantiaid
<b>Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)</b>	Dangosyddion ar adeg hysbysebu
	Tystysgrif wrth ymweld
	Safon gyfreithiol ofynnol
<b>Gwelliannau i eiddo</b>	Yr hyn sydd angen cymeradwyaeth cynllunio a rheoli adeiladu
<b>Sefydlu contract meddiannaeth</b>	
<b>Mathau o Gontract Meddiannaeth</b>	Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, deddfwriaeth atodol a Chanllawiau LIC
	Contractau diogel
	Contractau Safonol (sefydlog a chyfnodol)
	Tenantiaethau a Thrwyddedau sydd y tu allan i gwmpas Rhentu Cartrefi a Rhentu Doeth Cymru
	Cosbau am beidio â chydymffurfio
<b>Contractau Meddiannaeth Safonol</b>	Datganiad Ysgrifenedig o'r Contract
	Datganiadau Ysgrifenedig Model
	Amserlenni ar gyfer cyhoeddi

	Termau: Materion allweddol, Sylfaenol, Atodol ac Ychwanegol
	Telerau annheg
<b>Fetio deiliaid contract</b>	Cyfweliad a geirdaon neu wasanaeth geirdaon
	Gwarantwyr
	Gwirio prawf adnabod, statws mewnfudo
<b>Diogelu gwybodaeth</b>	Deddf Diogelu Data 2018 / GDPR
<b>Blaendaliadau tenantiaeth</b>	Cynlluniau diogelu blaendal
	Stocrestr - (telerau atodol)
	Gofynion cydymffurfio cyfreithiol a diffygion
	Traul Derbyniol
<b>Gwahaniaethu anghyfreithlon</b>	Deddf Cydraddoldeb 2010, nodweddion gwarchoddedig a chyfraith achosion perthnasol
<b>Gosod ac adolygu rhent</b>	Y pwysigrwydd o siarad â'r tenant
	Amrywio rhent
<b>Cymorth ariannol</b>	Lwfans Tai Lleol
	Credyd Cynhwysol
	Benthyciad Arbed Tenantiaeth
	Cymorth grant arall i landlordiaid a thenantiaid
<b>Cyfleustodau</b>	Rhoi gwybod i gyflenwyr
	Rheoliadau Dŵr Cymru 2014 – Landlord TAP
<b>Cyfrifoldebau ac atebolrwydd landlord</b>	
<b>Rhwymedigaethau Atgyweirio a Ffitrwydd i Fod yn Gartref</b>	Cyfrifoldebau Trwsio a Chyfyngiadau
	Rhwymedigaethau Landlordiaid a Deiliaid Contractau
	Ffitrwydd i Fod yn Gartref – 29 o 'Faterion ac Amgylchiadau'
	Mynediad i Atgyweirio/Hawl i Fwynhad Didramgwydd
	Iawndal a Chosbau
	Arolygiadau Cyfnodol a Deialog ar gyfer Cynnal a Chadw
<b>System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai</b>	Ddeddf Tai 2004
	Gorfodi

	<p>Manylion am osgoi peryglon penodol yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyddwysiad, lleithder a llwydni</li> <li>• Cartrefi oer</li> <li>• Rheoli haint</li> <li>• Diogelwch tân</li> <li>• Carbon Monocsid</li> <li>• Diogelwch Trydanol</li> <li>• Llithro, baglu a chwympo a diogelwch rhag damweiniau</li> </ul>
<b>Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch Allweddol</b>	Rheoliadau Diogelwch Trydanol (1994)
	Rheoliadau Diogelwch Tân (FSO 2005 a Deddf Diogelwch Tân 2021)
	Legionella – Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
	Rheoliadau Asbestos (2012)
	Rheoliadau Diogelwch Nwy (1998)
	Dodrefn a Rheoliadau Diogelwch Dodrefn (1988)
	Ysmygu a Deddf Iechyd 2006
<b>Gwaredu gwastraff</b>	Dyletswydd gofal
<b>Yn ystod y contract</b>	
<b>Symud i mewn</b>	Gwybodaeth allweddol, cyfarwyddiadau offer
<b>Ymweliadau rheolaidd, cynnal a chadw</b>	Rhybudd 24 awr. Hawl i feddiannu heb ymyrraeth gan y landlord
	Ymweliadau cyfnodol ac eraill
<b>Gweithdrefnau argyfwng</b>	Cyswllt brys
	Mynediad mewn argyfwng
<b>Rhent</b>	Casglu
	Derbynneb Rhent Ysgrifenedig
	Amrywio'r Rhent
	Arwyddion rhybudd cynnar o Ôl-ddyledion rhent
	Dyfarniad Hawliadau Bychain y Llys Sirol
	Pecynnau cymorth i ddeiliaid contractau
<b>Newid telerau</b>	Amrywio Contractau Meddiannaeth Safonol
	Marwolaeth ac Olyniaeth

<b>Olyniaeth, Cyd-gontractau a Chydsyniad</b>	Cyd-ddeiliaid Contractau: Atebolrwydd, Gadael ac Ychwanegu
	Cydsyniad a Rhesymolrwydd
<b>Cysylltiadau landlord/deiliad contract</b>	Atal chwalu contract, cyfryngu, gwasanaethau cymorth, camau cyfreithiol
	Hawliau a rhwymedigaethau deiliaid contract
Diwedd Contractau Meddiannaeth Safonol Tymor Penodol	Tri opsiwn: diofyn i gyfnodol, dewis cyhoeddi newydd sefydlog neu gyfnodol newydd
<b>Cwynion</b>	Gweithdrefn gwyno a doleri i amod y drwydded
	Gwneud iawn i'r Ombwdsmon
<b>Dod â thenantiaeth i ben</b>	
<b>Meddiannaeth (Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016)</b>	Cydsyniad Cydfuddiannol
	Ymddygiad gwrthgymdeithasol
	Ôl-ddyledion rhent difrifol
	Torri'r Contract
	Meddu ar Gontractau Cyfnodol
	Meddu ar gontractau tymor penodol
	Ffurflenni Penodol
	Gadael
	Troi allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu
	Troi Allan Dialgar
<b>Terfynu contract meddiannaeth gan ddeiliaid contract</b>	Tymor Penodol/Cyfnodol
	Cyd-denantiaethau - Hysbysiad Ymadael
<b>Symud allan</b>	Cyfleustodau – Darlleniadau Mesuryddion, Rhoi Gwybod i Ddŵr Cymru
	Treth Gyngor
	Stocrestr
	Rhoi'r Blaendal yn ôl - derbynebaw, dull Amgen o ddatrys anghydfod
	Trosoglwyddo eiddo
<b>Rhaid i'r cwrs gwmpasu gwybodaeth sy'n berthnasol i gontractau meddiannaeth newydd o 1 Rhagfyr 2022 yn ogystal â gwybodaeth am gontractau wedi'u trosi yn benodol o amgylch meddiant a FfIFYG</b>	

### 3. Gofynion Cyrsiâu Asiant

Rhaid i gyrsiau gyflwyno cynnwys ar ofynion statudol a contract ac arfer gorau, gan wneud y gwahaniaeth rhwng pob un yn glir. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r asiant ddeall ei ddyletswyddau i landlordiaid a thenantiaid, rhwymedigaethau tenant, rhwymedigaethau landlord a'u rôl fel asiantau yn y broses osod a rheoli.

Mae modd cyflwyno cynnwys y cwrs mewn unrhyw drefn neu mewn unrhyw nifer o fodiwlau, cyn belled â bod y deilliannau dysgu ehangach yn cael eu cyflawni. Wrth gyflawni cyrsiau drwy blatfform ar-lein, rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyrsiau'n rhyngweithiol a diddorol, a'u bod yn hwyluso amgylchedd sy'n ysgogi dysgu.

Bydd y broses asesu ar gyfer cymeradwyo cyrsiau yn ystyried a oes proses ddilysu ddigonol. Bydd Rhentu Doeth Cymru'n gofyn bod proses arholi gadarn ar waith yn rhan o'r broses ddilysu sy'n dangos bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda iawn o'r maes llafur a drafodir.

Mae'r cynnwys hwn yn berthnasol i unrhyw gwrs ar gyfer asiantau a'u staff ('pobl gysylltiedig' yw'r diffiniad o'r rhain) y mae'n ofynnol iddyn nhw gwblhau hyfforddiant trwyddedu dan y ddeddfwriaeth, naill ai fel rhan o gais cychwynol am drwydded, neu i adnewyddu trwydded. Rhaid i chi sicrhau bod pob maes a restrir isod yn cael sylw yng nghynnwys eich cwrs.

#### Cynnwys cwrs asiant ar gyfer cais cychwynol am drwydded

**Dylai cwrs yr asiant gwmpasu'r holl bynciau a restrir yng nghwrs y landlord yn ogystal â'r canlynol:**

<b>Ystyriaethau busnes asiant</b>	
<b>Cytundebau</b>	Ysgrifenedig
	Ar Lafar
	Canslo
	Egwyddorion Cyfraith Contract
	Contractau Defnyddiwr
	Pwer atwrnai
	"Person Cysylltiedig" dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
<b>Telerau busnes</b>	Ffioedd
	Cynllun diogelu arian cleientiaid
	Cyfrifyddiaeth a thrywydd archwilio
	Dechrau/cwblhau'r broses o ddod â thenantiaeth i ben
	Estoppel
	Contract cyflogai
	Yswiriant Indemniad Proffesiynol
<b>Amddiffyn defnyddwyr</b>	Gwaharddiad ar ffioedd i denantiaid
	Rheoliadau Contractau Defnyddwyr 2013
	Gorfodi gan Awdurdod Lleol
<b>Cyfraith Asiantaethau</b>	Cyfyngiad ar Awdurdod
	Y Tu Hwnt i'r Gyfraith
	Cyfraith Statudol a Chyffredin

	Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 – Adran 13
	Awdurdod Llafar
	Dyletswydd Gofal a Sgiliau
<b>Ystyriaethau ariannol ac eraill</b>	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
	Deddf Cyllid 1995
	Enillion troseddau
	Gwyngalchu Arian
	Esgeulustod
<b>Perthnasoedd allweddol sy'n effeithio ar y busnes</b>	
<b>Pwy yw pwy</b>	Asiant, landlord, deiliad contract
<b>Dyletswyddau asiant i landlord</b>	Ufudd-dod, teyrngarwch, atebolrwydd, perfformiad, datgelu
<b>Dyletswyddau landlord i asiant</b>	Taliadau, indemniad, hawlrwym
<b>Dyletswyddau asiant i denant</b>	Didueddrwydd, dyletswydd gofal, Deddf Cydraddoldeb 2010
<b>Lle Cewch Gyngor</b>	Cymdeithasau Asiantau

## Cynnwys cwrs asiant ar gyfer cais adnewyddu trwydded

At ddibenion adnewyddu trwyddedau, mae cynnwys y cwrs wedi'i adolygu i ganolbwyntio ar lai o bynciau ond y disgwyliad yw y bydd y pwnc dan sylw yn cael ei drin yn fanylach, yn fwy ymarferol gyda chyfle am astudiaethau achos a thrafodaethau ychwanegol. Nid oes rhaid dilyn y cwrs yn ôl y drefn a ddisgrifir, cyhyd â bod y pynciau'n cael eu cwblhau.

Byddai'r cynnwys yr un fath ag ar gyfer cwrs adnewyddu trwydded landlord ynghyd â'r canlynol:

<b>Ystyriaethau busnes asiant</b>	
<b>Telerau busnes</b>	Ffioedd
	Cynllun diogelu arian cleientiaid
	Cyfrifyddiaeth a thrywydd archwilio
	Dechrau/cwblhau'r broses o ddod â thenantiaeth i ben
	Estoppel
	Contract cyflogai
	Yswiriant Indemniad Proffesiynol
<b>Amddiffyn defnyddwyr</b>	Gwaharddiad ar ffioedd i denantiaid
	Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015
	Rheoliadau Contractau Defnyddwyr 2013
<b>Ystyriaethau ariannol ac eraill</b>	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
	Deddf Cyllid 1995
	Enillion troseddau
	Gwyngalchu Arian
	Esgeulustod
<b>Perthnasoedd allweddol sy'n effeithio ar y busnes</b>	
<b>Pwy yw pwy</b>	Asiant, landlord, deiliad contract
<b>Dyletswyddau asiant i landlord</b>	Ufudd-dod, teyrngarwch, atebolrwydd, perfformiad, datgelu
<b>Dyletswyddau landlord i asiant</b>	Taliadau, indemniad, hawlrwym
<b>Dyletswyddau asiant i denant</b>	Didueddrwydd, dyletswydd gofal, Deddf Cydraddoldeb 2010
<b>Ystyriaethau cyn contract</b>	



## 4. Proses cymeradwyo'r cwrs

Yn ogystal, mae Adran 6 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015**, yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod Trwyddedu atodi neu ddileu amod neu amodau i geisiadau cymeradwyaeth cyrsiau. Fel rhan o gymeradwyaeth y cwrs, rhaid i chi ddilyn set o amodau. Mae'r amodau safonol wedi'u rhestru isod, fodd bynnag gall Rhentu Doeth Cymru orfodi amodau ychwanegol, ar sail teilyngdod y ceisiadau unigol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

Amodau Safonol Cymeradwyo Cwrs yw:

1. Dim ond gan Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig, dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 y gellir cyflwyno'r cwrs hwn/y cyrsiau hyn.
2. Rhaid defnyddio brandio Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.
3. Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i'r dull o ddilysu'r cwrs, gan gynnwys newidiadau i gwestiynau.
4. Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i gynnwys y cwrs.
5. Rhaid cadw cynnwys y cwrs a dull yr asesu'n berthnasol a'i ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar Gymru, cyn pen 28 diwrnod ar ôl y newid. Rhaid i Rentu Doeth Cymru gael gwybod am y newidiadau er mwyn cytuno ar y cynnwys newydd. Rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys sy'n digwydd unwaith y bydd cynrychiolydd wedi mynychu'r hyfforddiant (am y 5 mlynedd nesaf), gael eu cyfleu i'r cynrychiolydd hwnnw drwy ddiweddariad o fewn 28 diwrnod i'r newid ddigwydd.
6. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a roddir i gynrychiolwyr ar y cwrs gydymffurfio â'r hyn y cytunir arno â Rhentu Doeth Cymru adeg eich cais, y mae'n rhaid i logo Landlord / Asiant cymeradwy Rhentu Doeth Cymru fod arnynt, neu os nad yw hynny'n bosibl, y geiriau 'Cwrs a Gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru'. Rhaid i'r dystysgrif hyfforddi gynnwys yr ymwadiad canlynol:

*'Nid tystiolaeth yw'r dystysgrif hon y cafwyd trwydded gan Rentu Doeth Cymru; tystio bod yr unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant landlord neu asiant yn unig y mae.'*

7. Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a gyflwynir arddangos enw cyntaf a chyfenw llawn y mynychwr. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i dystysgrif newydd gael ei chyflwyno os nad yw dystysgrif yn cyfateb i enw'r cynrychiolydd yn y cais i RhDC am drwydded.
8. Bydd cyrsiau hyfforddi yn y dosbarth yn cael eu hasesu gan Swyddog Sicrwydd a Datblygu Rhentu Doeth Cymru yn ystod y 3 mis cyntaf (neu pan gynhelir y cwrs am y tro cyntaf) ar ôl cymeradwyo'r cwrs. Ar ôl asesu'r cwrs, efallai y bydd RhDC yn cyflwyno argymhellion y mae'n rhaid eu mabwysiadu er mwyn parhau i gymeradwyo'r cwrs.
9. Rhaid i'r lleoliad a ddewisir i gynnal yr hyfforddiant ystafell ddosbarth fodloni safonau hygrychedd.
10. Rhaid i chi / eich sefydliad llynu at Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

### Ceisiadau Cymeradwyo'r Cwrs:

Pan wnewch gais am gymeradwyo cwrs, mae'n ofynnol i chi gyflwyno set o ddogfennau a fydd yn ategu'ch cais. Rhestrir y rhain isod:

- Ffurflen gymeradwyo cyrsiau wedi'i chwblhau
- Maes llafur llawn y cwrs neu fynediad ato os cyflwynwyd y cwrs ar-lein
- Copi o gyflwyniadau a thafleenni
- Tri phapur prawf (o leiaf 20 o gwestiynau ar bob un) neu gronfa o 60 o gwestiynau ar gyfer profion ar-lein a'r marc pasio perthnasol (o leiaf 70%)\*
- Esiampl o Dystysgrif Hyfforddiant
- Esiampl o Ffurflen adborth cynrychiolydd

\*Gwerthusir nifer y cwestiynau, y papurau prawf a'r marc pasio fesul achos.

### Ffi Cymeradwyo'r Cwrs:

Mae ffioedd cymeradwyo'r cwrs wedi'u nodi ym Mholisi Ffioedd Rhentu Doeth Cymru 2020 y gellir ei weld yma: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/>  
Ni fydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu ceisiadau heb dderbyn taliad.

## 5. Proses Awdurdodi Hyfforddiant

Dan Reoliad 3 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015**, mae'r Awdurdod Trwyddedu ag awdurdod i bennu gofynion cyffredinol mewn perthynas â hyfforddiant (yn unol â 19(2)(b) Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae paragraff (b)

rheoliad 3, yn nodi bod hyfforddiant yn cael ei wneud gan ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig neu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Mae Adran 6 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015** yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod Trwyddedu ychwanegu neu ddileu amod neu amodau ar geisiadau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant. Fel rhan o'ch cais am Awdurdodi Hyfforddiant, rhaid i chi gadw at set o amodau safonol. Fodd bynnag, gall amodau ychwanegol gael eu gosod gan Rhentu Doeth Cymru, yn seiliedig ar rinweddau ceisiadau unigol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

#### Amodau Safonol Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant:

1. O gael eich awdurdodi, cewch chi a/neu eich cwmni gyflwyno'r cwrs/cyrsiau sydd wedi'u nodi ar eich ffurflen gais a chaiff y rhain eu cymeradwyo dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014.
2. Dim ond dan enw'r darparwr cymeradwy sydd wedi'i nodi ar eich cais y cewch chi ddarparu'r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu (h)enwi ar eich cais. Nid yw'r awdurdodiad hwn yn caniatáu i chi roi ar gontract allanol ddarpariaeth y cwrs(cyrsiau) i unrhyw sefydliad arall heb ganiatâd datganedig gan Rhentu Doeth Cymru.
3. Rhaid defnyddio brandio Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.
4. Rhaid i chi roi'r dull dilysu ar waith yn berffaith unol â gofynion Cymeradwyo Cwrs a gyhoeddwyd dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i Rhentu Doeth Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau i'r dull dilysu cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar waith.
5. Mae'n rhaid i'r profiad a'r cymwysterau gofynnol sydd wedi'u nodi yn eich cais fod yn ofynnol gan bob hyfforddwr y mae eich cwmni'n ei gyflogi i ddarparu cyrsiau Rhentu Doeth Cymru a gymeradwyir.
6. Dim ond yr hyfforddwyr sydd wedi'u rhestru ar eich cais sydd wedi'u hawdurdodi i ddarparu cyrsiau hyfforddiant cymeradwy Rhentu Doeth Cymru. Rhaid rhoi gwybod i RhDC os bydd unrhyw hyfforddwyr yn stopio darparu'r cwrs/cyrsiau. Cyn i hyfforddwyr

newydd gael eu hychwanegu, rhaid i RhDC gymeradwyo hynny; hyd nes bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi, ni chaiff hyfforddwr newydd ddarparu cyrsiau.

7. Rhaid i bob hyfforddwr (a phersonau cysylltiedig â'r sefydliad/cwmni) fod yn addas a phriodol. Os oes gan hyfforddwr neu unrhyw un cysylltiedig â nhw, yn ffurfiol ai peidio, euogfarnau nas treuliwyd fel y rhai sydd wedi'u rhestru isod, rhaid i Rentu Doeth Cymru gael gwybod am hynny. Dyma restr o droseddau perthnasol:
  - (a) cyflawni unrhyw drosedd gan gynnwys twyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau saethu neu gyffuriau neu unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n galw am ofynion hysbysu)
  - (b) gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon a ymarferir ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig â pharhad unrhyw fusnes; neu
  - (c) mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â thenant tai neu landlord megis: troi tenant allan yn anghyfreithlon; wedi cael trwydded neu drwydded ddethol wedi'i gwrthod o dan Ddeddf Tai 2004; wedi cael trwydded wedi ei diddymu am dorri unrhyw amodau o dan Ddeddf Tai 2004; wedi bod yn destun Gorchymyn Rheoli o dan Ddeddf Tai 2004; wedi methu â chydymffurfio â Hysbysiad Tai (angen gwneud gwaith ac ati) a roddwyd gan awdurdod lleol; wedi bod yn destun cwynion gan denantiaid neu ffynonellau eraill, ynghylch torri amodau trwydded o dan Ddeddf Tai 2004 yn ddifrifol neu dro ar ôl tro.
8. Rhaid i chi a/neu eich sefydliad gael y cadarnhad angenrheidiol gan bob un o'ch hyfforddwr sy'n landlordiaid eiddo yng Nghymru y byddan nhw'n cynnal eu heiddo'n unol â phob deddfwriaeth berthnasol a Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru.
9. Rhaid i chi gyflwyno ffigurau bob chwarter ar gyfer yr holl asiantau a/neu landlordiaid sydd wedi cwblhau'r cwrs/cyrsiau a enwir ar eich cais o fewn 28 diwrnod o'r cais yn cael ei wneud gan Rhentu Doeth Cymru.
10. Rydych chi a/neu eich sefydliad yn cytuno i gael eich archwilio gan Rhentu Doeth Cymru fel sy'n ofynnol yn adran 10 Rheoliadau Rheoli Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015.

## Dogfennaeth Ategol Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant:

Pan wnewch gais am Awdurdodi Darparwr Hyfforddiant, mae'n ofynnol i chi gyflwyno set o ddogfennau a fydd yn ategu'ch cais. Dyma'r dogfennau gofynnol:

- Ffurflen awdurdodi darparwr hyfforddiant wedi'i chwblhau
- CV Hyfforddwr (gan gynnwys tystysgrifau cymwysterau)
- Proses Monitro'r Hyfforddwr
- Cod Ymddygiad/Ymarfer yr Hyfforddwr
- Polisi Diogelu Data
- Polisi canslo Cwrs/Cofrestriad
- Gweithdrefn gwyno
- Esiampl o Ffurflen adborth cynrychiolydd

## Ffi awdurdodi hyfforddiant:

Mae ffioedd awdurdodi'r darparwr hyfforddiant wedi'u nodi ym Mholisi Ffioedd Rhentu

Doeth Cymru 2020 y gellir ei weld yma: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/>

Ni fydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu ceisiadau heb dderbyn taliad.

## 6. Archwiliad Rhentu Doeth Cymru

Dan Reoliad 10 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhentu Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015**, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i fonitro darparwr hyfforddiant awdurdodedig.

- 1) Ar gais yr awdurdod trwyddedu, rhaid i ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflwyno'r canlynol:
  - (a) gwybodaeth am drefniadau gweinyddol y darparwr hyfforddiant awdurdodedig ac am y ffordd y cynhelir cyrsiau yn y modd y gallai bod ei hangen yn rhesymol ar yr awdurdod trwyddedu; a
  - (b) cofnodion neu ddogfennau eraill (ym mha bynnag ffurf y'u cynhelir) a gedwir at ddibenion cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.
- 2) Rhaid i'r darparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflenwi gwybodaeth neu ddogfennau (fel y bo'n berthnasol) y gofynnir amdany'n nhw dan baragraff (1) cyn pen cyfnod allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan yr awdurdod trwyddedu, neu cyn gynted â bod hynny'n rhesymol ymarferol.

## Amcanion yr Archwiliad

Amcan cyffredinol yr archwiliad yw i Rentu Doeth Cymru gael sicrwydd bod darparwr hyfforddiant cymeradwy'n rheoli system hyfforddiant gadarn. Dylai'r rheoliadau sydd ar waith alluogi'r darparwr hyfforddiant i gydymffurfio â'r gyfraith, yr amodau yn y ceisiadau am awdurdodiad hyfforddi a chymeradwyaeth y cwrs (yn achos Darparwyr Hyfforddiant) a'r Canllaw ar Gymeradwyaeth Cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Tai (Cymru) 2014. Os tybir y gellir gwneud gwelliannau, rhoddir gwybod i'r darparwr am hynny, fel bod modd gwella rheoliadau.

Mae modd cael copi o **Fframwaith a Chanllawiau Archwilio Awdurdodi a Chymeradwyo Hyfforddiant RhDC** drwy gysylltu â'r tîm hyfforddi ar 03000 133 344 neu [HyfforddiantRhentuDoethCymru@caerdydd.gov.uk](mailto:HyfforddiantRhentuDoethCymru@caerdydd.gov.uk)

## 7. Adnewyddu Cymeradwyaeth Cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant

Mae cymeradwyaeth cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant yn ddilys am gyfnod o bum mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod cymeradwyo, rhaid i Ddarparwyr Hyfforddiant Allanol adnewyddu eu cymeradwyaeth gwrs a'u hawdurdodiad darparwr hyfforddiant.

Mae proses adnewyddu Cymeradwyaeth Cwrs ac Awdurdodiad Darparwyr Hyfforddiant yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd a dogfennau ategol fel y nodir yn y ddogfen hon.

Bydd Rhentu Doeth Cymru yn adolygu'r Canllaw hwn o bryd i'w gilydd.

## Atodiad A – Rhestr Termau

### **Ffi Awdurdodi**

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu (Rhentu Doeth Cymru) benderfynu ymlaen llaw ar yr hyfforddiant a fydd yn addas at ddibenion trwyddedu ac adnewyddu trwyddedau. Nodir hyn yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae [Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat \(Gofynion Hyfforddi\) \(Cymru\) 2015](#) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu godi ffi am gais gan Ddarparwr Hyfforddiant Allanol am awdurdodiad i ddarparu cwrs/cyrsiau at ddibenion trwyddedu/ail-drwyddedu o dan y Ddeddf.

### **Ffi Gymeradwyo**

Codir ffi i gymeradwyo cais am gwrs drwy'r un mecanwaith ag ar gyfer y ffi awdurdodi uchod. Dim ond cwrs trwyddedu y byddai RhDC yn ei dderbyn y caiff Darparwyr Hyfforddiant Allanol awdurdodedig ei ddarparu, ac os caiff ei gymeradwyo o flaen llaw fel cwrs dan y broses a nodir yn y ddogfen hon.

### **Darparwyr Hyfforddiant Allanol - DHA**

Darparwr hyfforddiant allanol yw'r term ar gyfer sefydliadau y tu allan i Rhentu Doeth Cymru sy'n darparu hyfforddiant i landlordiaid ac asiantau at ddibenion trwyddedu/adnewyddu. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cael ei 'awdurdodi' gan RhDC i gynnig hyfforddiant o'r fath y caiff wneud hynny. Rhaid i RhDC gymeradwyo pob cwrs y maent yn ei gynnig a'i frandio fel un sy'n addas at ddibenion trwyddedu neu ail-drwyddedu.